**<u>Cyngor Cymuned Llaneilian (386)</u>**
<u>Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd Ionawr 13, 2026 am 7yh yn Neuadd Bentref Penysarn.</u>

**Presennol:** Alan Williams, Patsy Allen, Dafydd Griffiths, Alison Williams, Carol Whitaker, Gordon Hayes, John Griffiths, Ian Evans, Derek Owen. Aled Morris Jones, Carli Evans Thau (Clerc)

**Ymddiheuriadau:** Hefina Williams, Dewi Jones, James Roe, Liz Wood

**<u>1</u>** **<u>Croeso</u>**
Bu Alan Williams gadeirio'r cyfarfod a chroesawu pawb yn bresennol gan ddymuno blwyddyn newydd dda.

**<u>2</u>** **<u>Datgan Diddordeb</u>**
Ian Evans – cyflog y clerc

**<u>3</u>** **<u>Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf</u>**
Bu gwirio dyddiad ar gyfer cychwyn gwaith ar Allt Nebo, bu'r clerc gadarnhau mai mis Mawrth oedd yn yr ebost gan CSYM. Er eglurder nodwyd hefyd mai tocynnau teithio ar gyfer y grwp cerdded oedd wedi eu ad-dalu i Patsy Allen ac nad oedd wedi hawlio taliadau personol.

Cymeradwywyd y cofnodion – cynnig Dafydd Griffiths, eilio Patsy Allen.

**<u>4</u>** **<u>Materion yn Codi</u>**
4.1 Dathlu'r Nadolig – cadarnhawyd bod y system goleuadau solar wedi gweithio'n dda a bu diolch i Gordon Hayes ac Alan Williams am eu gwaith. Mae golau erbyn hyn wedi ei osod yn y gysgodfan ym Maes Llwyfo gan ddefnyddio'r un system. Bu talu am yr offer drwy gronfa Ty Moel Isaf (i'w ad-dalu diwedd y flwyddyn ariannol).

**<u>5</u>** **<u>Diweddariadau</u>**
5.1 Caeau Chwarae – mae'r offer ffitrwydd erbyn hyn wedi eu gosod a'r grant wedi ei hawlio. Y clerc i gysylltu a CSYM i awgrymu a threfnu agoriad swyddogol.

5.2 Llithrfa – bydd y pwyllgor yn cwrdd o fewn y mis er mwyn trafod y cynllun ar gyfer y tymor nesaf. Daw cwynion am y gabions ar waelod y slip, eu bod wedi suddo ac nad oeddent i'w gweld ar lanw uchel.

5.3 Mynwent – daw cadarnhad gan y contractiwr ei fod yn ail-ddechrau ar y gardd goffa wythnos yma. Cadarnhawyd bod y clerc wedi gosod torchau ar feddi teulu Ty Moel Isaf fel yr arfer. Nodwyd bod difrod sylweddol wedi bod i dwr yr Eglwys yn y storm diwethaf a bod sgaffald dros llwybr y fynwent tra bod gwaith yn mynd yn ei flaen.

5.4 Polisi a Chyllid – mae'r pwyllgor wedi cwrdd i drafod y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf. Cadarnhawyd bod y Cofnodion wedi eu rhannu er gwybodaeth. Trafodwyd cyflog y clerc a bu argymell bod posib hawlio hyd at wyth awr y mis yn ychwanegol tuag at waith ar brosiectau penodol e.e. ceisiadau grant, cyfarfodydd penodol sydd yn ychwnegol i'r gwaith cyffredinol. Bu'r aelodau yn unfrydol gefnogol. Ni fu Ian Evans gymryd rhan yn y drafodaeth.

5.5 Cronfa TMI – cadarnhawyd bod y pwyllgor wedi cwrdd cyn cyfarfod y Cyngor. Bydd cyfarfod nesaf y pwyllgor ym mis Ebrill.

5.6 Llwybrau – Bu tynnu sylw at arwydd dderw sydd wedi disgyn, cytuno byddai ei drin a thynnu sylw Arwel Evans. Mae arwydd arall wedi ei osod beth bynnag. Nodwyd bod giat fferm wedi ei osod dros dro ac ar draws gamddfa tuag at Porth Gwichiad, cytuno cysylltu a Llys Dulas i gadarnhau eu bwriad gan ei fod yn anodd defnyddio'r gamdda fel y mae.

Mae angen cysylltu ag Arwel Evans eto ynglyn a'r Llwybrau ychwanegol eodd angen eu torri, cadarnhau'r prisiau gan ein contractiwr ni a chadarnhau bydd ad-daliad ar gael gan CSYM am

y gwaith ychwanegol.

5.7 Pwyllgorau Allanol – dim.

5.8 Bioamrywiaeth a Chynllun Bioamrywiaeth – bu tynnu sylw at goed sydd wedi eu torri ger Bryn Fuches, Llys Dulas a phryderon am golli cynefin, cytuno cysylltu a swyddog coed CSYM am gyngor.

Cadarnhawyd bod cannoedd o fylbiau cennin pedr wedi eu plannu eto eleni, gyda cymorth gan disgyblion Ysgol Penysarn a bod pawb wedi mwynhau er gwaethaf y tywydd.

Prosiect Cysylltu a Natur

Mae'r teithiau cerdded yn parhau, bydd y cylchdeithiau nesaf yn aros ar y lon oherwydd y tywydd. Nodwyd bod nifer o du allan i'r ardal hefyd yn ymuno ar ay teithiau erbyn hyn. Bu Patsy Allen nodi y byddai yn noddi tocynnau teithio pan fydd angen ac felly na fyddai cost i'r Cyngor.

Mae bwriad i'r daith nesaf fynd heibio hen fynwent Llanwenllwyfo, nodwyd bod mynediad iddo yn annodd ac nad oedd yn cael ei gynnal. Cytuno cysyltu a'r Esgobaeth i dynnu sylw a gofyn am adborth.

Trafodwyd y posibilrwydd o gwrdd gydag cynrychiolydd o Lys Dulas er mwyn trafod pryderon y Cyngor Cymuned yn yr ardal, cynlluniau'r Stad, a sut gallwn o bosib gydweithio.

## 6 Materion Priffyrdd a Thrafnidiaeth Cyhoeddus

6.1 Daw ebost gan gymydog yn holi am drefn CSYM i lanhau traeniau ffordd/gullies. Cadarnhawyd bod y clerc wedi cysylltu a'r adran briffyrdd am wybodaeth pellach.

6.2 Daw llythyr gan gymydog yn gofyn i'r Cyngor Cymuned rhoi pwysau ar CSYM i newid cyfyngiad cyflymder y ffordd osgoi i 40mya. Nodwyd bod yr aelodau wedi bod yn gofyn ers tro ac yn gefnogol o'r cais. Cytuno anfon eto at yr adran briffyrdd a chopi i'r aelodau etholedig er gwybodaeth. Bu tynnu sylw hefyd nad oedd golau ger y groesfan ar draws yr A5025.

6.3 Cytuno cysylltu eto ynglyn a chysgodfan ger Ardwyn, mae angen cadarnhad os ydi'n bosib ac ymarferol cael strwythur of fath ar y safle.

6.4 Cafwyd gadarnhad bydd bws ychwanegol o ddiwedd y mis i gyfeiriad Amlwch cyn 9 o'r gloch. Bydd yn yn galluogi pobl i diethio i'w gwaith. Y Cyngor Cymuned oedd wedi tynnu sylw CSYM o'r diffyg gwasanaeth.

6.5 Trafodwyd problemau parhaus gyda'r amserlenni electroneg a chytuno byddai anfon papur (arall) at CSYM yn tynnu eu sylw. Byddai hefyd posib addasu'r amserlen i wella cysylltiadau rhwng gwahanol gwasanaethau i hwyluso teithiau. Trafodwyd y posibilrwydd o gyfarfod gyda swyddogion Arriva a/neu Trafnidiaeth Cymru i drafod ymhellach – dydy'r sefyllfa bresennol ddim yn deg i rheini sydd yn ddibynnol ar y gwasanaeth bws. Dydy'r gwasanaeth fel ag y mae ddim yn annog pobl i'w ddefnyddio o ddewis.

6.6 Bu tynnu sylw at ebyst gan yr adran briffyrdd yn gofyn nad oedd cyswllt uniongyrchol gyda'r swyddogion. Roedd hyn yn dilyn ebost at uwch swyddogion yn tynnu sylw at faterion cynllunio oedd yn gyfrifoldeb ar yr adran briffyrdd. Bu anfon yr un ebost at yr adran gynllunio, adran briffyrdd a Dylan Williams y prif weithredwr. Cytuno byddai gwahodd Huw Percy i gwrdd a'r Cyngor Cymuned.

## 7 Cynllunio

Cadarnhawyd bod unrhyw ddogfennau cynllunio wedi eu hanfon i'r aelodau drwy ebost.

7.1 Ceisiadau – er budd y Cofnodion, bu tynnu sylw at geisiadau oedd wedi eu derbyn, ac ymateb iddynt wedi trafodaethau ar lafar ac drwy ebost oherwydd amseru cyfarfodydd:

- HHP/2025/187 Waen, Penysarn – sylwadau wedi eu hafnon at CSYM yn tynnu sylw at

ddefnydd a phryderon dwys am newid enw hanesyddol. Bu tynu sylw ‘r adran briffyrdd hefyd gan mai hwy sy’n yfrifol am enwau yn hytrach na’r adran gynllunio.

- FPL/2025/254 Hawddmor, Llaneilian – bu pryderon am y datblygiad a siom bo d y cais wedi ei gyflwyno yn gais ol-weithredol.
- LUE/2025/15 Mount View, Amlwch – cais am wybdoaeth yw hwn nid cais cynllunio. Dim gwybodaeth pelalch i’w rannu a CSYM.
- FPL/2025/260 Ty Crwn, Llys Dulas – bu tynnu sylw bod y ty wedi ei ddymchwel cyn i’r cais cynllunio gael ei gyflwyno.
- FPL/2024/194 (gyferbyn a) Maen Dryw – dim gwrthwynebiad.
- FPL/2025/196 Pant y Clociau, Llaneilian – bu trafod y safle yma nifer o weithiau dros y misoedd diwethaf a bu anfon sylwadau yn tynnu sylw at nifer o bryderon ac yn gofyn am ymweliad safle.

7.2 Penderfyniadau – cafwyd wybod am benderfyniadau CSYM fel a ganlyn:

- FPL/2025/196 Pant y Clociau, Llaneilian (gweler uchod). Mae CSYM wedi gwrthod y cais am nifer o resymau a bu diolch i’r swyddogion am anfon eu hadroddiad gyda’r llythyr penderfyniad. Bu tynnu sylw at ddau gamgymeriad teipio yn yr adroddiad a bydd tynnu sylw os bydd y cais yn mynd i apel.
- HHP/2025/153 a LBC/2025/26 3 Llanfoi, Llaneilian – wedi ei ganiatau
- FPL/2025/85 Gadfa Newydd, Penysarn – wedi ei wrthod
- HHP/2025/159 The Gardens, Llys Dulas – wedi ei ganiatau
- HHP/2025/160 West Lodge, Llys Dulas – wedi ei ganiatau

7.3 Gorfodaeth – dim

7.4 Datblygiadau Solar – dim diweddariad. Trafodwyd sut byddai y prosiectau yn amharu ar eu gilydd wrth gystadlu am gysylltiad i’r Grid Genedlaethol.

7.5 Unrhyw fater cynllunio arall – dim

## **<u>8 Materion Ariannol</u>**

8.1 Taliadau - Cymeradwywyd y taliadau canlynol
£233.76 Cyngor Tref Amlwch (bagiau baw ci)
£1,401.54 CSYM (cynllun llithrfa 2024 a 2025)
£200.00 Dragoncraft (placiau TMI)
£48.00 Signs and Design (arwydd offer ffitrwydd)
£14,288.40 Playquest (offer ffitrwydd)
£793.16 Cyflog Clerc a gweinyddu cynllun llithrfa 2025
£42.00 Torchau teulu TMI
£1517.41 S Williams (cynnal a chadw Medi)
£613.08 Cyflog Clerc
£265.16 Costau Clerc Hydref – Rhagfyr
£360.00 G Parry (Coed Nadolig)
£315.34 Offer Solar (Nadolig – TMI)
£45.00 Offer Solar (Nadolig – TMI)
£13.00 Goriadau (bagiau baw ci)

8.2 Ceisiadau am Arian – daw cais am gefnogaeth gan Urdd Ynys Mon. Cytuno byddai cyfranu £200. Cynnig Ian Evans, eilio John Griffiths.

8.3 Adroddiad Chwarterol – cydnabod bod y ddogfen wedi ei ddosbarthu i’r aelodau cyn y cyfarfod.

8.4 Cyllideb a Priseb 2026/27 – cadarnhawyd bod dogfen ddrafft wedi ei rannu gyda’r aelodau yn dilyn cyfarfod y pwyllgor cyllid. Bu’r pwyllgor argymell bod y dreth yn codi 7%. Bydd angen clustnodi peth o’r arian wrth gefn tuag at y gyllideb. Nodwyd bod gofyn cadw digno o arian wrth gefn i ariannu’r Cyngor am gyfnod o hyd at 12 mis. Nodwyd nad oedd unrhyw aelod yn

hawlio y lwfans sydd ar gael iddynt, na chostau teithio personol. Bu gytuno derbyn argymhelliant y pwyllgor mai £36,891.09 fyddai cyllideb y Cyngor ar gyfer 2026/26 ac y byddai gofyn am priseb o £26,462.8 (£40.55 eiddo band d).

8.5 Archwiliad 2024/25 – dim diweddariad hyd yma.

**9 Coedwig Cymunedol (Perllan)**

Wedi ei drafod eisioes – pwyllgor Ty Moel Isaf.

**10 Cysgodfannau Bws**

Dim diweddariad – Dewi Jones ac Alan Williams i adolygu'r strwythurau dan sylw ac adrodd yn ol.

**11 Adroddiad Blynyddol 2024/25**

Bu dosbarthu copiau o'r adroddiad i'r sawl oedd yn bresennol a diolch i Alan Williams a gydlynnu'r ddogfen.

**12 Gwasanaeth Coffa**

Bu gohurio'r drafodaeth nes y cyfarfod nesaf.

**13 Iechyd a Diogelwch**

Dim nad oedd wedi eu trafod eisioes.

**14 Gohebiaeth**

Cadarnhawyd bod eitemau o ohebiaeth wedi eu hanfon ir aelodau drwy ebost wrth eu derbyn.

**15 Ymgynghoriad CSYM – Casglu Gwastraff**

Trafodwyd yr ymgynghoriad a'r wybodaeth oedd wedi ei rannu gan CSYM. Bu gwrthwynebu newid casgliadau biniau du i unwaith pob pedair wythnos a bu nodi bod angen annog a hwyluso pobl (a CSYM) i ailgylchu mwy. Cytuno cydlynnu dogfen a'i anfon i'r aelodau drwy ebost cyn ei gyflwyno i CSYM.

**16 Unrhyw Fater ar gyfer Agenda'r Cyfarfod Nesaf**

16.1 Aelodau i gysylltu a'r clerc mewn da bryd os am gynnwys eitemau ar yr agenda.

16.2 Bu atgoffa bod angen arolwg ar safle Lon Gors – Lon Lletroed cyn gynted a phosb cyn i natur ddeffro. Cytuno cysylltu a'r sawl eodd weidi eu hargymell gan swyddog amgylcheddol CSYM i gwblhau'r arolwg cyn gynted a phosib fel bod modd symud ymlaen a'r gwaith os yn ffafriol. Bu cytuno ar gyllideb o hyd at £1k am yr arolwg er mwyni'r clerc allu symud ymlaen. Cynnig Dafydd Griffiths, eilio Ian Evans, bydd ariannu o gronfa TMI.

**17 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn am 7yh nos Fawrth, Chwefror 10, 2026
Bydd Pwyllgor y Llithrfa yn cwrdd Chwefror 3ydd, 2026
Bydd Ymgyrch Casglu Sbwriel Chwefror 15, 2026

Bu'r cyfarfod orffen am 9.15yh o'r gloch

**Alan Williams, Cyngor Cymuned Llaneilian**

CET01/2026